Cyfreithwyr Swayne Johnson

Canllaw Gwybodaeth Cleient

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych LL16 3PA
Ffôn: - 01745 812835
Ffacs 01745 814852

a

Ty'r Eglwys, Stryd Fawr, Llanelwy LL17 0RD
Ffôn: - 01745 582535
Ffacs: - 01745 584504

a

17 Trinity Sgwâr, Llandudno, LL30 2RN
Ffôn: - 01492 876271
Ffacs: - 01492 876274

E-bost: law@swaynejohnson.com

www.swaynejohnson.com

Cyflwyniad a chroeso

Mae gan Cyfreithwyr Swayne Johnson swyddfeydd yn Ninbych, Llandudno ac yn Llanelwy, ac mae'r ddwy yn hawdd i'w cyrraedd.

Ar gyfer y swyddfa yn Ninbych, mae parcio ar gael yn y meysydd parcio arhosiad byr "Talu ac Arddangos" sydd wedi eu lleoli o fewn y dref. Mae arwyddion clir ar eu cyfer fel yr ydych yn dod i mewn i Ddinbych. Efallai mai'r un mwyaf cyfleus yw'r "maes parcio siopwyr" sydd wedi ei leoli ym mhen Stryd y Dyffryn, sydd yn agos iawn i'r swyddfa. Trowch i'r chwith fel ydych yn dod allan o'r maes parcio ac mae swyddfeydd Swayne Johnson wedi eu lleoli nid nepell i fyny'r allt. Maent wedi eu lleoli ar gornel Sgwâr y Neuadd ar yr ochr chwith.

Mae mynediad i bobl anabl/pobl sydd angen cymorth ar gael gydag ystafell gynhadledd ar y llawr gwaelod ar gyfer mynediad rhwydd pan fo'r angen.

Ar gyfer y swyddfa yn Llanelwy, mae parcio (amser cyfyngedig) ar gael ar y Stryd Fawr yn rhad ac am ddim ac mae hefyd meysydd parcio "Talu ac Arddangos" yn ac o amgylch y dref, ac mae arwyddion clir ar eu cyfer.

Eto, mae mynediad i'r swyddfa i bobl anabl ac ystafell gynhadledd llawr gwaelod ar gael.

Mae nifer cyfyngedig o lefydd parcio am ddim ar gael o flaen adeilad Swyddfa Llandudno, ac mae nifer o feysydd parcio arhosiad byr ac arhosiad hir ar gael yng nghanol y dref. Mae'r swyddfa wedi ei lleoli yn Sgwar y Drindod, y tu ol (hat on the 'o') i'r Eglwys sydd ar y stryd fawr.

Mae'r fynedfa i'r swyddfa yn addas ar gyfer pobl anabl ac mae ystafell gyfweld ar gael ar y llawr isaf os oes angen.

Y Cwmni

Mae Cyfreithwyr Swayne Johnson yn Gwmni Cyfyngedig. Ei chwe Cyfarwyddwr sy'n berchen arno ac yn ei reoli, ac maent i gyd yn Gyfreithwyr tra phrofiadol. Yr ydym yn cyflogi tua 50 o bobl ac mae gennym gyfanswm o 15 o Gyfreithwyr a Gweithredwyr Cyfreithiol er mwyn darparu gwasanaethau cyfreithiol ardderchog i gleientiaid.

Yr ydym yn falch o fod yn meddu ar y Wobr Buddsoddwyr Mewn Pobl, ac rydym wedi rhoi polisïau cydbwysedd gwaith-bywyd ar waith trwy'r Cwmni, heb aberthu ein henw da am wasanaeth o ansawdd.

Ein Amcan

- Yr ydym yn ymdrechu i roi cyngor clir, awdurdodol i gleientiaid, cyflwyno datrysiadau ymarferol i broblemau a gwneud y gwahaniaeth iddynt.
- Mae gennym agwedd gadarn tuag at achosion Llys lle bo'r angen, ynghyd â sgiliau eiriolaeth a thrafod ardderchog.
- Yr ydym yn anelu i ddarparu a chynnal y lefel uchaf o wasanaeth i'n cwsmeriaid bob amser.

Gwneud Apwyntiad

Mae gwneud apwyntiad yn syml iawn. Ffoniwch y dderbynfa os gwelwch yn dda neu deialwch y rhif deialu uniongyrchol ar gyfer eich Cyfreithiwr neu ei Gynorthwyydd/Chynorthwyydd Personol neu ei Ysgrifenyddes/Hysgrifenyddes.

Rydym bob amser yn ceisio ffitio apwyntiadau o amgylch anghenion ein cleientiaid, felly gofynnwch os gwelwch yn dda os ydych am gael ymweliad cartref neu apwyntiad y tu allan i oriau swyddfa. Bydd ymweliadau cartref fel arfer yn digwydd gyda dau bersonél. Mae bob amser yn well gwneud apwyntiad yn hytrach na galw i mewn - rhag ofn fod eich Cyfreithiwr mewn cyfarfod arall neu allan yn y Llys.

Oriau Swyddfa & Gwybodaeth Cysylltu

- Mae'r ddwy swyddfa yn agored rhwng 9yb a 5.30yh Dydd Llun i Ddydd Iau a 9yb a 5.15yh ar Ddydd Gwener.
- Gallwch adael neges ar gyfer eich Cyfreithiwr ar y peiriant negeseuon gan ddefnyddio'r rhif deialu uniongyrchol.
- Gall apwyntiadau gael eu gwneud y tu allan i'r oriau agor swyddfa yma trwy drefniant.
- Gallwch anfon e-bost at eich Cyfreithiwr gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost sydd ar y pennawd llythyr, sy'n unigol i'ch Cyfreithiwr.

Telerau ac Amodau Busnes

Byddwch wedi derbyn llythyr manwl sy'n cynnwys ein Telerau Busnes - os gwelwch yn dda, arwyddwch un copi a'i anfon yn ôl mor fuan â phosibl a chadwch y copi arall ar gyfer eich cofnodion. Mae'r telerau hyn yn cynnwys ein cyfraddau tâl a gwybodaeth angenrheidiol arall.

Costau

Yr ydym yn cynnig y cyfleusterau i dalu eich cyfrif gyda cherdyn credyd/debyd un ai yn bersonol neu dros y ffôn.

Staff y Cwmni

Cyfarwyddwyr & Chyfreithwyr	**Edward T A Lloyd** **Richard C Chamberlain** **David P Scott** **Sarah J Noton** **Michael D Tree** **Jonathan G Moriarty** **Rhys Williams** **Caryl Vaughan**
Cyfreithiwr Ymgynghorol	**David Hooson** **J.O. Jones** **John Dyne** **James Chambers**
Cyfreithwyr Cysylltiol	**Judy K Lewis** **Elizabeth Bingham** **Lynette Viney-Passig** **Llyr Williams**
Gweithredydd Cyfreithiol	**E Dilwyn Jones**
Rheolwr Practis	**R Gwyrfai Jones**
Cyfreithwyr Dan Hyfforddiant	**Marc Thomas** **Jonathon Hogg**
Cynorthwywyr Personol	**Jan Jones** **Linda Colclough** **Ann Parry** **Mari Jones** **Rona Edmondson**
Ysgrifenyddesau	**Ann Young** **Cath Jones** **Vikki Tomlinson**

	Beryl jones **Glenys Barratt** **Liz Gull** **Catrin Astrop**
IT	**Andy Griffiths** **David Williams**
Staff Gweinyddol	**Gareth Davies** **Holly Jones**
Arianwyr	**Carol Jones** **Christine Baker** **Einir Jones**
Staff Derbynfa	**Susan Jones** **Sarah Griffith** **Val Owen**

Mae llawer o'n staff yn siarad Cymraeg a buasent yn hapus i siarad gyda chi neu ysgrifennu atoch yn Gymraeg.

Beth ydym ni i gyd yn ei wneud.....

Cyfreithwyr & Gweithredwyr Cyfreithiol

Darparu cyngor i gleientiaid unai wyneb yn wyneb mewn cyfarfodydd, ar y ffôn neu trwy e-bost/ffacs. Mae eich Cyfreithiwr wedi treulio rhwng chwech ac wyth mlynedd yn hyfforddi yn y gyfraith ac mae ganddo/ganddi lawer o flynyddoedd mewn practis.

Mae arbenigaeth yn rhan annatod o'n gwaith ac mae pob cyfreithiwr yn gweithio o oddi fewn i adran benodol, gan arbenigo mewn agwedd neilltuol o'r gyfraith.

Gallwch felly ddarganfod bod gennych un neu fwy o arbenigwyr yn gweithio ar eich achos ar unrhyw adeg. Yr ydym yn darganfod fod hyn yn galluogi i'r gwasanaeth gorau gael ei ddarparu i chi - wrth i'r gyfraith a rheolaeth ddod yn fwyfwy cymhleth, byddai'n amhosibl disgwyl i'ch Cyfreithiwr allu cynghori'n fanwl ar bob agwedd o bob cyfraith. Yr ydym felly yn gweithio yn agos fel tîm.

Nid ydym yn defnyddio staff nad ydynt yn gymwys i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i gleientiaid.

Cynorthwywyr Personol ac Ysgrifenyddion

Mae ein Cynorthwywyr Personol a'n Hysgrifenyddion oll yn ysgrifenyddion cyfreithiol tra cymwys sydd hefyd wedi hyfforddi am nifer o flynyddoedd. Maent yn gweithio yn agos gyda Cyfreithwyr unigol er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd i gleientiaid. Mae Cynorthwywr Personol/Ysgrifennydd eich Cyfreithiwr wedi ei nodi ar ben ein llythyrau i chi - mae croeso i chi gysylltu gyda nhw unrhyw bryd os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Derbynfa

Mae ein Staff Derbynfa cwrtais a chynorthwyol yn gallu eich helpu gydag ymholiadau, trefnu apwyntiadau a llawer mwy. Maent yma i'ch cynorthwyo o'ch ymholiad cyntaf a thrwy gydol eich achos, felly os gwelwch yn dda, peidiwch a phetruso gofyn.

Rheolwr Practis/Gweinyddiaeth

Mae ein Rheolwr Practis yn gyfrifol am holl agweddau di-gyfreithiol o reolaeth dydd i ddydd y Cwmni, mewn cysylltiad gyda'n Rheolwr Gyfarwyddwr. Ei swyddogaeth yw hwyluso rheolaeth esmwyth y Cwmni ac mae'n cael ei gynorthwyo gan nifer o Gynorthwywyr Gweinyddol ac Arianwyr. Maent oll yn dra chymwys yn eu meysydd unigol a byddant yn hapus i'ch cynorthwyo pe bai gennych ymholiad gweinyddol.

Digwyddiadau Marchnata

Yr ydym yn aml yn cymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol neu yn noddi elusennau/sefydliadau lleol. Cysylltwch gyda Sarah Noton os gwelwch yn dda am ragor o wybodaeth.

Cadwch olwg am Seminarau a sgyrsiau - yr ydym wrthi'n cymryd rhan mewn darparu siaradwyr mewn seminarau allweddol ar draws yr ardal ac yn lleol. Yn aml, rydym yn cynnal ein seminarau ein hunain ar gyfer cleientiaid sydd gennym eisoes a chleientiaid y dyfodol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu hysbysebu yn y wasg. Yr ydym yn bresennol yn Sioe Dinbych a Fflint yn flynyddol, fel arfer ym mhabell fawr y CLA.

Ymwelwch â'n gwefan www.swaynejohnson.com am wybodaeth gyfoes a bwcio ar-lein.

Swayne Johnson Limited
Registered in England and Wales
No 5145640

Registered Office:

2 Hall Square
Denbigh
Denbighshire
LL16 3PA